# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

## RHAN 3

TYBACO A CHYNHYRCHION NICOTIN

### PENNOD 1

YSMYGU

*Gorfodi*

**22 Darpariaeth atodol ynghylch pwerau mynediad**

(1) Caiff swyddog awdurdodedig sy'n mynd i mewn i fangre o dan adran 19, neu yn rhinwedd gwarant o dan adran 20 neu 21, fynd ag unrhyw bersonau eraill ac unrhyw gyfarpar y mae'r swyddog yn ystyried eu bod yn briodol.

(2) Os yw meddiannydd mangre y mae swyddog awdurdodedig wedi ei awdurdodi i fynd i mewn iddi drwy warant o dan adran 20 neu 21 yn bresennol ar yr adeg y mae'r swyddog awdurdodedig yn ceisio gweithredu'r warant—

(a) rhaid rhoi enw'r swyddog i'r meddiannydd;

(b) rhaid i'r swyddog gyflwyno i'r meddiannydd dystiolaeth ddogfennol bod y swyddog yn swyddog awdurdodedig;

(c) rhaid i'r swyddog gyflwyno'r warant i'r meddiannydd;

(d) rhaid i'r swyddog gyflenwi copi ohoni i'r meddiannydd.

(3) Os nad yw mangre y mae swyddog awdurdodedig wedi ei awdurdodi i fynd i mewn iddi drwy warant o dan adran 20 neu 21 wedi ei meddiannu, neu os yw'r meddiannydd yn absennol dros dro, yna wrth adael y fangre rhaid i'r swyddog ei gadael wedi ei diogelu yr un mor effeithiol rhag mynediad anawdurdodedig ag yr oedd pan aeth y swyddog iddi.

(4) Mae'r adran hon yn gymwys i gerbyd fel pe bai'n fangre.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 22 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 02 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

## Gwybodaeth Cychwyn

**I1** A. 22 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 126(2)**

**I2** A. 22 mewn grym ar 1.3.2021 gan O.S. 2021/202, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 22 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 02 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2017/949, art. 3 by S.I. 2017/967 art. 2